**Y Pwyllgor Diwylliant CC-12-02(min)**

**COFNODION**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | Dydd Mercher 19 Mehefin 2002 |
| **Amser:** | 9.00am-12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Y Cynulliad Cenedlaethol |

**Presennol:**

Rhodri Glyn Thomas (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr, Cadeirydd)

Jenny Randerson (Democrat Rhyddfrydol, Canol Caerdydd, Gweinidog y Cynulliad)

Owen John Thomas (Plaid Cymru, Canol De Cymru)

Lorraine Barrett (Llafur, De Caerdydd a Phenarth)

Dafydd Wigley (Plaid Cymru, Caernarfon)

Glyn Davies (Ceidwadwr, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Delyth Evans (Llafur, Canolbarth a Gorllewin Cymru)

Alison Halford (Llafur, Delyn)

Rosemary Butler (Llafur, Gorllewin Casnewydd)

**Ymddiheuriadau:** Dim

**Swyddogion**

Julia Annand (Clerc y Pwyllgor)

Prys Davies (Is-adran Diwylliant a'r Gymraeg)

O Gwyn Griffiths (Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol)

Peter Harding (Is-adran y Celfyddydau, y Loteri a Chwaraeon)

**Hefyd yn bresennol:**

Euryn Ogwen Williams (Ymgynghorydd Arbenigol y Pwyllgor)

**Datganiadau o fuddiant:**

- Rosemary Butler – Cadeirydd Prosiect Amgueddfa Genedlaethol Diwydiant a'r Môr.
- Lorraine Barrett – Ei g•r â grant i'w benderfynu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.
- Rhodri Glyn Thomas – aelod o fwrdd cysgodol cais Caerdydd i fod yn Brifddinas Diwylliant Ewrop 2008.

- Dafydd Wigley - ei wraig yn aelod amlwg o gymuned y celfyddydau yng Nghymru; roedd wedi derbyn grant gan Gyngor Llyfrau Cymru ac roedd ganddo gysylltiadau ffurfiol â Hijinx Theatre.

**<u>Eitem 1: Adolygiad o'r Gymraeg – Papur: CC-12-02(p.1)</u>**

Trafododd yr aelodau ail ddrafft yr adroddiad 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol'. Roedd hwn yn ymgorffori safbwyntiau o'r cyfarfod blaenorol, gan gynnwys nifer o argymhellion a gyflwynwyd y diwrnod hwnnw; yn achos y rhai hynny roedd enw'r awdur yn cael ei nodi mewn bachau petryal yn yr adroddiad. Dywedodd y Cadeirydd y byddai angen ystyried arddull yr adroddiad; cafwyd sylwadau gan Marie Knox (Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau) a Gwyn Griffiths (Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol). Gwahoddodd yr Aelodau i gyflwyno unrhyw sylwadau pellach i'r Ysgrifenyddiaeth.

Yna trafododd y Pwyllgor yr adroddiad fesul pennod.

Deddfwriaeth

- Cytunwyd i ddileu’r paragraff olaf ond un ar dudalen 9, yngl•n â defnyddio’r ddeddfwriaeth bresennol.

- Cefnogwyd argymhelliad Comisiwn Richard a chytunwyd y dylid gollwng y rhai a ddilynai.

Tai a Chynllunio

- Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn bwysig i bobl ddeall na allai’r Pwyllgor ond gwneud argymhellion. Mater i’r Gweinidogion oedd ystyried a ddylid gweithredu arnynt.

- Cytunodd y Pwyllgor i ddileu’r trydydd argymhelliad ar dudalen 12.

- Cytunwyd i wneud y pedwerydd argymhelliad yn fwy cadarnhaol, gan gydnabod y gwaith a wnaed eisoes yn y maes hwn.

- Cytunwyd y dylid dosbarthu Pecynnau Croeso yn fwy eang na dim ond trwy Werthwyr Tai.

- Cytunwyd i ddileu’r gair 'legal' o linell gyntaf yr argymhelliad cyntaf ar dudalen 13.

Cyfieithu

- Oherwydd amseriad ei gyflwyniad ac amseriad yr adroddiad, cytunwyd i ddileu’r argymhelliad ynghylch Cynllun Iaith Llywodraeth y Cynulliad.

Datblygiad Economaidd a Chymunedau Cynaliadwy

- Cytunwyd i ddileu’r frawddeg gyntaf yn y pedwerydd paragraff ar dudalen 17.

Addysg

- Dywedodd y Cadeirydd y byddai’n trafod sut i ymdrin â’r adran hon â Chadeirydd y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes, yng ngoleuni canlyniad eu trafodaeth ar eu hadroddiad Addysg ar 26 Mehefin.

Swyddogaethau a Strwythurau

- Teimlai’r aelodau fod angen cryfhau’r bennod, yn arbennig yr adran ar yr uned drawsbynciol arfaethedig. Teimlent hefyd y dylid tanlinellu ei phwysigrwydd trwy ei gosod ar ddechrau’r adran ar Flaenoriaethau. Dylai ddechrau â’r Cynulliad Cenedlaethol, gyda’r Bwrdd Iaith, Mentrau Iaith, ac yna gyrff eraill gan gynnwys y Fforwm Iaith yn dilyn.

- Credai'r aelodau hefyd fod angen canfod mecanweithiau effeithiol ar gyfer cysylltu â'r Pwyllgorau a chydlynu eu gweithgareddau Cymraeg.

Cynllunio Ieithyddol

- Roedd teimlad nad oedd yr arddull yn cydweddu â gweddill yr adroddiad gan fod gorbwyslais ar ddogfen Gweledigaeth a Chenhadaeth Bwrdd yr Iaith.

- Roedd angen argymhelliad ar safoni ieithyddol.

- Roedd angen ychwanegu sylwedd at yr argymhelliad ar ddata.

Yn olaf, bu peth trafod ynghylch nodi'r prif flaenoriaethau neu beidio. Atgoffodd y Cadeirydd y Pwyllgor fod y gweinidog wedi gofyn am i'r blaenoriaethau hyn gael eu nodi. Awgrymwyd trafod hyn ymhellach yn y cyfarfod ar 27 Mehefin.

Dywedodd y Cadeirydd mai'r camau nesaf oedd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes gymeradwyo'r bennod ar Addysg ar 26 Mehefin; byddai'r Pwyllgor Diwylliant yn cymeradwyo ar 27 Mehefin. Byddai angen i'r adroddiad fod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Gorffennaf yn barod ar gyfer trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Gorffennaf. Yn wyneb yr amserlen hon, gofynnwyd i'r Aelodau gyflwyno unrhyw sylwadau pellach cyn gynted ag y byddai modd.

**Eitem 2: Trafodaeth ar Flaenoriaethau'r Gyllideb - Papur CC 12-02 (p2)**

Cyflwynodd y Gweinidog yr Eitem hon, gan atgoffa'r Aelodau bod Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant eleni, a bod y gyllideb Celfyddydau a Diwylliant bellach yn gadarnach o lawer yn dilyn y cynnydd o 11% y flwyddyn flaenorol.

Wrth ymateb i gwestiynau a ddilynodd dywedwyd y canlynol gan y Gweinidog:

- Roedd y ffigurau presenoldeb a nodwyd ym mharagraff 5.1 yn ymwneud â phob digwyddiad celfyddydol ar wahân i ffilm.

- Roedd yna safonau ar gyfer llyfrgelloedd, a oedd yn sicrhau bod digon o lyfrau'n cael eu prynu.

- Byddai papur yn cael ei baratoi yn yr hydref ar y Gronfa Celfyddydau Ieuenctid.

- Ar y berthynas rhwng y gronfa arfaethedig ar gyfer prosiectau Cymru Greadigol ac adnoddau Cyngor Celfyddydau Cymru, dywedodd y Gweinidog fod angen cydbwysedd gofalus. Roedd angen y gronfa newydd fel y gallai'r Cynulliad ymateb i ddigwyddiadau a

materion a godai yn ystod y flwyddyn, ond nid fel y gallai fod yn ddarparwr uniongyrchol. Câi adnoddau eu sianelu trwy eraill fel Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad ac Awdurdodau Lleol.

- O ran dosbarthu cyllid, roedd llythyr cylch gwaith Cyngor Celfyddydau Cymru yn nodi'n glir y dylid ei ddosbarthu'n wastad trwy Gymru.

- O ran y strategaeth ddigwyddiadau arfaethedig, eglurodd y Gweinidog na pharatowyd strategaeth genedlaethol cyn hyn. Dylai alluogi'r Cynulliad i edrych yn fwy strategol ar atyniadau priodol a galluogi trefi llai i gymryd rhan.

- O ran gwneud Stadiwm y Mileniwm yn flaenoriaeth dan y strategaeth, gan na dderbyniwyd cynllun busnes, ni allai'r Gweinidog ei gynnwys yn y cylch cyllideb hwn. Ni châi cefnogaeth bellach ei hystyried, fodd bynnag, heb dryloywder, atebolrwydd ac ailstrwythuro.

- Nid oedd yr adroddiad gan y fforwm pêl-droed wedi ei drafod eto; byddai angen i'r Pwyllgor ystyried ei ymateb fel rhan o'r adolygiad ar chwaraeon.

Materion eraill a gododd yn y drafodaeth oedd:

- Yr angen am Oriel Gelf Genedlaethol i Gymru. Awgrymwyd y dylid gwahodd Cyfarwyddwr Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru, a oedd yn ymddeol, i'r Pwyllgor yn yr hydref i amlinellu canlyniadau'r ymgynghori diweddar.

- Awgrymwyd hefyd y dylid cael cyflwyniad ar y posibilrwydd o sefydlu Ysgol Gelf a Dylunio yng Nghymru.

- Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd ysgrifennu at Goleg Cerdd a Drama Cymru yn eu llongyfarch ar ennill statws brenhinol yn ddiweddar. Awgrymwyd y dylai'r llythyr hefyd gynnwys llongyfarchiadau i'r pedwar myfyriwr a fu'n canu offerynnau i'w Mawrhydi y Frenhines yn ystod ei hymweliad â'r Cynulliad ar 13 Mehefin 2002.

Yn olaf, gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau roi gwybod iddo am unrhyw bryderon eraill ynghylch y gyllideb, neu am unrhyw flaenoriaethau arfaethedig, cyn gynted ag y byddai modd.

**Eitem 3: Trafodaeth ar Gynllun Corfforaethol Cyngor Celfyddydau Cymru - Papur 12-02 (p3)**

Cyflwynwyr: Sybil Crouch, Cadeirydd a Peter Tyndall, Prif Weithredwr

Fel cyflwyniad, dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru (CCC) mai adroddiad ar y cynnydd a'r

datblygiadau diweddaraf â'r gwaith o ailwampio fyddai ganddynt. Croesawent y blaenoriaethau arfaethedig yng nghyllideb y Gweinidog a'r ffaith bod y cynnydd a gafwyd eisoes wedi helpu i godi statws y celfyddydau a diwylliant yng Nghymru.

Dywedodd CCC eu bod wrthi'n gweithio'n galed iawn ar yr ailwampio. Byddai'r Cynllun Corfforaethol, a fyddai'n mynd gerbron y Cyngor ar 12 Gorffennaf, yn cynnwys ystyriaeth o'r safbwyntiau lawer a gyflwynwyd yn ystod yr ymgynghori ar eu cynllun pum mlynedd.

Yn ystod trafod, roedd yr Aelodau'n awyddus i longyfarch CCC ar y ffordd y trafodwyd y broses ailwampio anodd. Derbyniai'r Cyngor, fodd bynnag, fod angen gwneud rhagor o waith, ac y byddai hynny'n cymryd amser.

Wrth ymateb i gwestiynau gan Aelodau, dywedodd CCC:

- Er bod pryderon gan Aelodau ynghylch y ffaith bod 13% o glientiaid CCC yn dal i ddioddef diffyg ariannol sylweddol, byddai cymorth yn helpu i ryddhau addewid creadigol a oedd yn cael ei lethu gan eu sefyllfa bresennol. Deuai cynigion ynghylch hyn gerbron y Pwyllgor yn yr hydref.

- Câi cymhorthdal ei gyfeirio at gefnogi amcanion strategol Cymru Greadigol.

- Y bwriad oedd i'r Theatr Genedlaethol Gymraeg fod yn gwmni teithiol. Roedd yn hanfodol i gynyrchiadau Cymraeg o safon uchel gael eu gweld ledled Cymru. Mewn ardal Gymraeg y byddai canolfan y cwmni, ac arweinydd y cwmni fyddai ei gyfarwyddwr artistig. Dylai'r Theatr fod wedi ei sefydlu erbyn Ebrill 2003, â chefnogaeth £250 000 o gyllid rheolaidd, er y byddai angen rhagor.

- Dewiswyd y sefydliadau Celfyddydau Cymuned i'w cefnogi o blith y rhai a oedd wedi derbyn grantiau 'cyfresol'. Y gobaith oedd y byddai eu niferoedd yn cynyddu, gyda sylw arbennig i ddosbarthiad daearyddol.

- Bu trafod rhagarweiniol ag ACCAC ynghylch celfyddydau mewn ysgolion. Hoffai CCC eu gweld yn cael eu cynnwys yn y cwricwlwm.

- Roedd gweithgor bychan yn cael ei sefydlu ag ELWa a sefydliadau AU ar ddarparu cyrsiau ar gyfer cymwysterau dawns yng Nghymru.

- Roedd CCC bron â chwblhau trafodaethau ar gyllid refeniw i Clwyd Theatr Cymru. O ganlyniad, roedd dwy daith ganolig eu maint ar fin cael eu sicrhau.

- Roedd CCC yn cydweithio'n agos ag Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru ynghylch Oriel Gelf Genedlaethol. Credai'r Cyngor y dylid ffafrio orielau bychain lleol fel

rheol.

Wrth ddiolch i Gyngor Celfyddydau Cymru am eu cyflwyniad, dywedodd y Cadeirydd y byddai’n dymuno trafod ymhellach yn yr hydref yn sgil y drafodaeth hon.

**Eitem 4: Cofnodion y cyfarfod diwethaf - Papur CC 11-02 (min)**

Fe’u cymeradwywyd gan y Pwyllgor.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mehefin 2002**